
cymorth cymru
connect • strengthen • influence

Cartrefi Cymunedol Cymru

# Materion Cartref

## Cyllideb Cymru 2026/27



# Cyflwyniad

**Dylai pawb fod â hawl i gartref saff a diogel. Rydym yn galw am godiad pellach o 10% i'r Gyllideb Cymorth Tai ac Atal Digartrefedd yng nghyllideb derfynol Llywodraeth Cymru 2026/27.**

Mae'r gwasanaethau cynghori a chymorth a ariennir gan y gyllideb hon yn chwarae rhan holl bwysig mewn atal a lliniaru digartrefedd, gan helpu degau o filoedd o bobl bob blwyddyn i ymadfer ar ôl trawma, a byw'n ddiogel ac annibynnol. Fodd bynnag, mae'r gwasanaethau hyn wedi bod dan bwysau parhaus dros y ddegawd ddiwethaf, gan wynebu costau uwch, cyfyngiadau ar gyllid, twf anhygoel yn y galw, a chynnydd yng nghymhlethdod yr anghenion cymorth.

Er mwyn cyflwyno gwybodaeth ar gyfer cyllideb Llywodraeth Cymru am 2026/27, rydym wedi casglu tystiolaeth gan ddarparwyr gwasanaethau digartrefedd a gwasanaethau cymorth tai yng Nghymru. Daeth data i law oddi wrth 36 o sefydliadau, yn cynnwys elusennau bychan sy'n gweithredu mewn un neu ddau o awdurdodau lleol, elusennau mwy o faint sy'n gweithredu'n rhanbarthol neu'n genedlaethol, a chymdeithasau tai. Y sefydliadau hyn sy'n darparu'r mwyafrif o'r gwasanaethau digartrefedd a chymorth tai yng Nghymru, ac oherwydd hynny rydym yn hyderus fod ein data yn gynrychioliadol o'r sector.

Mae hyn yn darparu tystiolaeth glir o'r pwysau a'r heriau sylweddol mae gwasanaethau a sefydliadau'n eu hwynebu. Mae'n tanlinellu'r twf mewn cymhlethdod a risg mae gweithwyr rheng-flaen yn eu hwynebu o ddydd i ddydd, yr effaith ar eu lles, a'r angen am gynnydd pellach i sicrhau eu bod yn cael y gydnabyddiaeth, y wobr, a'r cymorth priodol am y gwaith anhygoel maent yn ei gyflawni. Tra bod codiadau diweddar yn y gyllideb wedi dechrau cau'r bwlch ariannu a grëwyd gan ddegawd o lymder, mae realiti'r cyfnod ôl-bandemig, yr argyfwng costau byw, a'r cynnydd mewn digartrefedd, yn golygu bod y galw am wasanaethau cymorth wedi cynyddu uwchlaw'r hyn sydd ar gael, a bod galw am adnoddau pellach i helpu llywodraeth leol a'u partneriaid i gwrdd ag anghenion pobl.

## Galwad am fwy o arian yn y gyllideb derfynol

Mae Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru am 2026/27 yn dangos cynnydd o 2% i'r llinell gyllideb *Cymorth Tai ac Atal Digartrefedd*. Fel y dengys y dystiolaeth yn yr adroddiad hwn, nid yw hynny'n ddigon o bell ffordd. Mae'r data a gafwyd oddi wrth ddarparwyr cymorth tai a digartrefedd yn dangos y bydd angen cynnydd o 12% i dalu'r codiad yn y Cyflog Byw Gwirioneddol a chynnal gwahaniaethu yn achos rheolwyr uniongyrchol. Wrth i Lywodraeth Cymru a'r gwrthbleidiau gwrdd i drafod y gyllideb derfynol, rydym yn erfyn arnoch i roi blaenoriaeth i wasanaethau digartrefedd a chymorth tai er mwyn sicrhau y gall y gwasanaethau gwrdd â'r galw a'r cymhlethdod cynyddol, talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol, o leiaf, i'r gweithwyr, a thalu cost y cynnydd mewn cyfraniadau Yswiriant Cenedlaethol.

**Cymorth Cymru** yw'r corff trosfwaol ar gyfer darparwyr gwasanaethau digartrefedd, cymorth ym maes tai a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae ein haelodau'n darparu ystod eang o wasanaethau sy'n rhoi cymorth i bobl ymdopi â chyfnodau anodd, ailadeiladu eu hynanhyder, a byw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Rydym yn gweithredu fel llais y sector, gan ddylanwadu ar ddatblygu a gweithredu polisïau, deddfwriaeth ac ymarfer sy'n effeithio ar ein haelodau ac ar y bobl maent yn estyn cymorth iddynt. Rydym yn awyddus i fod yn rhan o fudiad cymdeithasol sy'n rhoi terfyn ar ddigartrefedd a chreu Cymru lle gall pawb fyw'n ddiogel ac yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain, a ffynnu yn eu cymunedau..

**Community Housing Cymru** yw llais y cymdeithasau tai yng Nghymru. Rydym yn cynrychioli 30 o gymdeithasau tai nid-er-elw sy'n darparu bron i 174,000 o dai i 10% o'r boblogaeth ledled Cymru. Ein gweledigaeth ar y cyd yw gwneud Cymru'n wlad lle mae tai safonol yn hawl sylfaenol i bawb. Mae cartref yn ganolog i fywydau pob un ohonom, a dyna pam rydym ni a'n haelodau'n credu y dylai helpu pobl i fyw bywydau iach, cyflawn a chysylltiedig fod wrth galon cynlluniau cenedlaethol Cymru. Rydym yn cynrychioli barn cymdeithasau tai ar lefel genedlaethol, i sicrhau eu bod yn gallu parhau i wneud eu gwaith hanfodol i gynnal tenantiaethau, cefnogi tenantiaid drwy heriau bywyd, a chreu cymunedau cynaliadwy..

# Beth a ariennir gan y llinell gyllideb Cymorth ac Atal Digartrefedd?

## Grant Cymorth Tai (GCT)

Mae'r Grant Cymorth Tai (GCT) yn ariannu'r mwyafrif mawr o'r gwasanaethau cymorth yn gysylltiedig â digartrefedd a thai yng Nghymru, yn cynnwys cymorth tenantiaeth, llety â chymorth, llochesi rhag cam-drin domestig, Tai yn Gyntaf, a llawer mwy. Mae'r grant yn chwarae rhan allweddol i atal digartrefedd, gan helpu pobl sydd mewn perygl o gael eu troi allan i oresgyn heriau ac aros yn eu cartrefi. Mae hefyd yn darparu ystod o lety argyfwng, a llety â chymorth, ar gyfer y rhai sy'n ddigartref neu sy'n dianc rhag camdriniaeth a thrais. Mae'r gwasanaethau hyn yn holl bwysig wrth helpu awdurdodau lleol i ymateb i anghenion pobl, a chwrdd â'u rhwymedigaeth gyfreithiol i ddarparu llety a chymorth.

## Grant Atal Digartrefedd (GAD)

Er bod hwn yn grant llai, mae'n ariannu gwasanaethau holl bwysig ym maes atal digartrefedd, yn cynnwys y gwasanaeth cenedlaethol ar gyngor tai (a weithredir gan Shelter Cymru) a roddodd gymorth i bron 12,000 o aelwydydd yn 2023/24, gan helpu i atal digartrefedd mewn 88% o'r achosion, gyda 59% yn parhau i aros yn eu cartref gwreiddiol. Mae'r grant hefyd yn ariannu gwasanaethau allweddol eraill, megis Tai yn Gyntaf a gwasanaethau digartrefedd i bobl ifanc, gan helpu awdurdodau lleol a'u partneriaid i atal a lleddfu digartrefedd.

## Hanfodol i roi diwedd ar ddigartrefedd

Nid yw'r pwysau ar y system digartrefedd a chymorth tai erioed wedi bod yn drymach nad ydyw ar hyn o bryd. Dengys ystadegau Llywodraeth Cymru fod 160 o bobl yn cysgu allan, ac 10,876 o bobl mewn llety dros dro, ar 30 Medi 2025. Byth ers y pandemig, mae'r niferoedd o bobl sy'n mynd i mewn i lety dros dro yn llawer uwch na'r niferoedd sy'n symud allan o lety dros dro i gartrefi sefydlog.

Tra bod argaeledd stoc tai addas a fforddiadwy yn hanfodol i helpu pobl i symud yn gyflym allan o lety dros dro, mae gwasanaethau cymorth hefyd yn chwarae rôl holl bwysig. Mae'r gwasanaethau hyn yn arbed mwy o bobl rhag colli eu cartrefi a gorfod mynd i lety dros dro, yn ogystal â helpu pobl i ymdopi mewn llety dros dro ac yna symud i, a chynnal, cartref y gallant fyw ynddo i ailadeiladu eu bywydau.

Mae'r Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) yn sefydlu cyfres o ddiwygiadau a fydd yn gwella'r modd o atal digartrefedd yng Nghymru, a'r ymateb iddo. Derbynnir yn gyffredinol y bydd angen rhagor o wasanaethau cymorth tai os am gefnogi'r gwaith hwn.

## Lleihau'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus eraill

Yn ogystal ag atal digartrefedd, mae'r Grant Cymorth Tai hefyd yn lleihau'r pwysau ar nifer fawr o wasanaethau cyhoeddus, o iechyd a gwasanaethau cymdeithasol i gyfiawnder troseddol. Mewn ymchwil a wnaed gan Brifysgol Fetropolitan Caerdydd, canfuwyd fod pob £1 a fuddsoddir mewn gwasanaethau GCT yn arbed £1.40 net i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

**Arbedion gros o £495m i wasanaethau cyhoeddus**

Yn seiliedig ar gyllideb gyfredol y Grant Cymorth Tai o £204m, mae hyn yn cyfateb i gyfanswm arbediad gros o £495m, gyda £229m i'r gwasanaeth iechyd, £199m i'r gwasanaethau gofal cymdeithasol, a £79m i'r gwasanaethau cyfiawnder troseddol.

- Lleihau'r galw ar wasanaethau Meddygon Teulu, ysbytai ac ambiwlansys
- Helpu pobl i gael gwell rheolaeth dros eu hiechyd meddwl
- Helpu pobl i oresgyn problemau gyda cham-drin sylweddau
- Helpu teuluoedd i ddianc rhag cam-drin domestig
- Lleihau ail-droseddu, gan wella diogelwch cymunedol
- Galluogi pobl a chanddynt anableddau dysgu i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau
- Lleihau risgiau diogelwch a phwysau ar wasanaethau i blant

**Mae pob £1 a fuddsoddir mewn gwasanaethau GCT yn rhoi arbediad net o £1.40 i wasanaethau cyhoeddus**

# Effaith cyllideb 2025/26

DIOGELWCH



# Effaith cyllideb 2025/26


**Y llynedd, derbyniodd y Grant Cymorth Tai swm ychwanegol o £21 miliwn, a chynyddwyd y Grant Atal Digartrefedd o 3%. Roeddem yn awyddus i ddeall sut y defnyddiwyd yr arian hwn, yn enwedig o ystyried y newidiadau i gyfraniadau cyflogwyr i'r Yswiriant Cenedlaethol.**

## Sut y defnyddiwyd y cynnydd mewn cyllid?

Yn dilyn cyhoeddi'r cynnydd i'r Grant Cymorth Tai, dywedodd Llywodraeth Cymru wrth awdurdodau lleol y dylid defnyddio'r arian i gwrdd â'r cynnydd mewn galw a chymhlethdod, ac i godi cyflogau staff rheng-flaen yn unol â'r ymrwymiad i'r Cyflog Byw Gwirioneddol (CBG). Fodd bynnag, mae'r newidiadau yng nghyfraniadau'r cyflogwyr i'r Yswiriant Cenedlaethol (YC), a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU yn Natganiad yr Hydref 2024, wedi gosod baich ychwanegol ac annisgwyl ar ddarparwyr gwasanaethau, gyda llawer yn datgan y byddai angen ailgyfeirio'r arian ychwanegol er mwyn cwrdd â'u costau YC. Rydym wedi archwilio ymhellach i hyn yn ein harolwg, gan ofyn i ddarparwyr sut y defnyddiwyd unrhyw gynnydd yn eu cyllid GCT neu GAD.

- **Dywedodd 91% ei fod yn cael ei ddefnyddio i dalu'r costau YC ychwanegol i'r cyflogwr,** gyda 51% yn dweud bod y rhan fwyaf ohono'n cael ei ddefnyddio i'r pwrpas hwn.
- **Dywedodd 81% ei fod yn cael ei ddefnyddio i godi tâl gweithwyr rheng-flaen,** gyda 50% yn dweud bod y rhan fwyaf ohono'n cael ei ddefnyddio i'r pwrpas hwn. Dywedodd 19% na allent ddefnyddio'r arian ychwanegol i ariannu codiadau cyflog gweithwyr rheng-flaen.
- **Dim ond 27% ddywedodd eu bod yn ei ddefnyddio i gwrdd â'r cynnydd mewn galw a chymhlethdod,** gyda dim ond 4% yn dweud bod y rhan fwyaf ohono'n cael ei ddefnyddio i'r pwrpas hwn.

**Defnyddiodd 91% y cynnydd i dalu cost uwch YC**




## Effaith amlwg y newidiadau i'r cyfraniadau YC

Tra bod y data'n dangos bod y rhan fwyaf o'r sefydliadau wedi gallu defnyddio'r cynnydd i godi cyflogau gweithwyr rheng-flaen, gwyddom fod hyn yn cael ei gyfyngu gan bwysau'r YC, ac roedd yna leiafswm sylweddol (19%) oedd wedi methu ei ddefnyddio i'r pwrpas hwn. Mae'n amlwg o'r data a'r sylwadau a gafwyd mai'r cynnydd yng nghostau'r YC oedd y prif ffactor i effeithio ar y defnydd o'r arian ychwanegol.

Yn enwedig, roedd gallu gwasanaethau i gynyddu capasiti ac arbenigedd i gwrdd â'r cynnydd yn y galw a'r cymhlethdod yn cael ei gyfyngu'n sylweddol gan bwysau ychwanegol y cyfraniadau YC, gyda 73% wedi methu defnyddio'r arian i'r pwrpas hwn.

"Cafodd y codiad positif yng nghyllid y GCT ei gyfyngu gan y codiad yng nghyfraniadau YC y cyflogwyr, oedd yn golygu na allem wneud cymaint o ddefnydd ohono, na'i ymestyn cyn belled ag y byddem wedi dymuno. Heblaw am y cynnydd YC, byddem wedi gallu codi cyflogau staff ymhellach, yn ogystal â buddsoddi peth o'r cynnydd yn ôl i swyddi newydd a allai fod wedi dechrau mynd i'r afael â'r gostyngiad ym maint y timau fel sydd wedi digwydd yn y gorffennol, gan ein helpu ni i fynd i'r afael ag anghenion mwy niferus a chymhleth y defnyddwyr gwasanaeth."

"Er ein bod yn hynod ddiolchgar am y cyllid ychwanegol, nid oedd modd i ni gynyddu capasiti ein timau oherwydd yr angen i codi cyflogau a'r costau YC cynyddol."

Dywedodd eraill fod y cyllid ychwanegol dim ond yn eu galluogi i gynnal y ddarpariaeth gwasanaeth, neu ostwng y diffyg ariannol ynghlwm â'r gwasanaethau hynny. Dywedodd rhai nad oedd y cyllid ychwanegol yn ddigonol i dalu costau llawn y cyfraniadau YC a'r CBG, gydag ailstrwythuro'n cael ei drefnu i ostwng costau staffio.

## Anghysondebau yn y cynnydd

Rhoddodd rhai darparwyr sylwadau ar yr anghysondeb rhwng yr arian ychwanegol a ddyfarnwyd i'r GCT a'r GAD. Tynnodd eraill sylw at yr heriau a achoswyd gan y dulliau anghyson a ddefnyddiwyd gan yr awdurdodau lleol o ran pennu'r swm, os o gwbl, y dylid ei drosglwyddo i'r darparwyr. Mae hyn yn gosod heriau wrth geisio cynnal strwythur cyflogau sy'n deg a chyfreithiol ar gyfer sefydliadau sy'n derbyn cyllid o'r ddwy ffrwd ariannu a/neu'n gweithredu ar draws nifer o feysydd gwahanol. Dywedodd ymatebwr arall wrthym mai'n ddiweddar iawn roeddynt wedi derbyn cadarnhad o'u cynnydd mewn cyllid, chwe mis ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol. Gwyddom na dderbyniodd rhai eraill gadarnhad o'u dyfarniad cyllid tan ar ôl 1 Ebrill. Mae hyn yn peri anawsterau dybryd wrth geisio cynllunio'n sefydliadol, yn enwedig wrth osod cyflogau am y flwyddyn, ac yn rhoi cynaliadwyedd y darparwyr mewn perygl, os bydd y dyfarniad cyllid yn troi allan i fod yn llai na'r disgwyl.

"Yn achos rhai Awdurdodau Lleol, ni chafodd y cyllid ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i Awdurdodau Lleol ei drosglwyddo'n llawn. Mewn rhai ardaloedd, dim ond yn ddiweddar yr ydym wedi cytuno ar y swm uwch."

"Roedd yna rai [awdurdodau lleol] nad oedd wedi trosglwyddo'r cynnydd llawn, ac yn sgil hynny mae rhai o'n gwasanaethau'n parhau i redeg ar golled."

"Derbyniodd ein cyllid GCT fwy o arian na'n cyllid GAD. Yng nghyhoeddiad gwreiddiol cyllideb 25/26, ni nodwyd unrhyw godiad ar gyfer cyllido'r GAD, ond yn y gyllideb derfynol cadarnhawyd cynnydd o 3%; er hynny, roedd yn parhau i fod yn is na'r cynnydd yn y GCT."

## Cynnal gwahaniaethu

Tra bod y cynnydd yng nghyflogau gweithwyr rheng-flaen wedi derbyn croeso cynnes, mae'r pryder yn parhau ynghylch cynnal gwahaniaethu priodol ar gyfer rheolwyr gweithredol. Mae hyn yn effeithio ar recriwtio, cadw staff, a dilyniant.

"Defnyddiwyd y cynnydd i gwrdd ag ymrwymiadau'r CBG ar gyfer staff rheng-flaen. Defnyddiwyd peth o'r cynnydd ar gyfer is-reolwyr, ond mae'r bwlch rhwng y ddau grŵp yma wedi bod yn lleihau'n gyson, gan achosi llawer o anfodlonrwydd."

"Mae mater y gwahaniaethu bellach yn gwbl dyngedfennol; yn y gorffennol rydym ni, fel llawer o rai eraill, rwy'n siŵr, wedi defnyddio arian ychwanegol i dalu cyflogau uwch na'r CBG i weithwyr cymorth, a chryfhau eu termau ac amodau ehangach, hyfforddiant (yn sgil y cynnydd mewn cymhlethdod) ac ati. Mae swyddi eraill wedi derbyn canrannau is o godiad cyflog ers sawl blwyddyn bellach, ac mae'r sefyllfa'n nesáu at fod yn anghynaliadwy – rydym yn symud tuag at sefyllfa lle bydd yn anodd iawn recriwtio a chadw uwch-staff a rheolwyr o fewn y gwasanaethau gweithredol."

# Gwasanaethau sy'n gweithredu ar golled

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, nid yw cyfran sylweddol o'r sefydliadau'n derbyn digon o gyllid i dalu costau rhedeg eu gwasanaethau a ariennir gan y GCT neu'r GAD.

**Eleni, dywedodd 66% o'r darparwyr eu bod yn rhedeg gwasanaethau a ariennir gan GCT neu GAD ar golled.** Mae hyn yn cymharu â 81% y llynedd, sy'n dangos bod y codiadau diweddar (yn enwedig i'r GCT) wedi cael effaith bositif. Fodd bynnag, mae 66% yn dal i fod yn annerbyniol ac anghynaladwy.

*"Mae'n wych o beth fod LIC wedi darparu cynnydd i gwrdd â'r CBG, ond nid yw hyn yn talu pob cynnydd mewn costau i'n prosiectau. Mae'r costau eraill hyn yn cynnwys costau staff heblaw gweithwyr achos rheng-flaen, a chodiadau chwyddiant i orbenion prosiectau. Mae hyn yn golygu na allwn gyflawni ad-daliad llawn ar gyfer pob un o'n prosiectau."*

**Mae 66% o'r darparwyr yn rhedeg gwasanaethau ar golled**

Yn ogystal, gofynnwyd i ddarparwyr rannu'r ffynonellau incwm a ddefnyddir i sybsideiddio'r gwasanaethau hynny nad ydynt yn derbyn cyllid digonol i dalu costau rhedeg y gwasanaethau.

**Dywedodd 60% o'r ymatebwyr fod cronfeydd wrth-gefn eu sefydliad yn cael eu defnyddio i sybsideiddio'r gwasanaethau hyn, ac mae honno'n sefyllfa gwbl anghynaladwy.** Mae 47% yn defnyddio incwm o adrannau eraill o'r sefydliad, ond mae nifer fawr o ddarparwyr wedi dweud wrthym dros y ddwy flynedd ddiwethaf nad yw eu Byrddau a'u huwch-dimau arweiniol yn barod i barhau i sybsideiddio gwasanaethau y dylid eu hariannu'n llawn gan y GCT neu'r GAD.

| Ydych chi wedi gorfod sybsideiddio eich gwasanaethau GCT / GAD o unrhyw un o'r ffynonellau canlynol? | |
|---|---|
| **Cronfeydd wrth gefn** | **60%** |
| **Incwm o rannau eraill o'r sefydliad** (e.e. incwm rhent, incwm hyfforddiant) | **47%** |
| **Refeniw o gynlluniau codi arian** | **27%** |

**Mae 60% yn defnyddio'u cronfeydd wrth gefn i gynnal gwasanaethau**

## Am ba hyd y gall darparwyr barhau i sybsideiddio gwasanaethau?

Gyda 66% o'r sefydliadau'n datgan bod gwasanaethau'n rhedeg ar golled, a 60% yn defnyddio'u cronfeydd wrth-gefn i sybsideiddio gwasanaethau, gofynnwyd i ddarparwyr am ba hyd y gallai hyn barhau. **Roedd yr atebion yn amrywio o 6 mis i 3 blynedd, gyda chyfartaledd o 1.2 blwyddyn.**

*"Mae ein cronfeydd wrth-gefn yn lleihau, felly ni allant fynd y tu hwnt i'r flwyddyn gyfredol."*

*"Os na cheir cynnydd yn 26/27, ni fyddwn yn gallu cynnal y cymhorthdal y tu hwnt i'r flwyddyn ym mhob gwasanaeth"*

*"Ar ddiwedd Mawrth 2026, bydd angen i ni ddangos bod pob prosiect/gwasanaeth yn cael eu cyflawni o fewn y gyllideb. Cyfarwyddeb yw hon oddi wrth ein Bwrdd Ymddiriedolwyr."*

*"Mae hyn ar drefniant gwasanaeth am wasanaeth, ond yn realistig ni all ein cronfeydd wrth-gefn barhau i'w gefnogi."*

# Cyflog teg ar gyfer gweithwyr ym maes digartrefedd a chymorth

URDDAS



# Cyflog teg a'r argyfwng costau byw

Mae gweithwyr ym maes digartrefedd a chymorth tai yn gwneud gwaith hynod heriol a sgilgar, ond mae'r cyfyngiadau ariannol yn golygu nad ydynt wedi derbyn y wobr a'r gydnabyddiaeth maent yn eu haeddu. Cydnabuwyd hyn yn eang dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, gan y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd, yn yr adroddiad Anawsterau yn y Rheng Flaen, a chan adroddiad diweddar y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar fater cymorth tai ar gyfer pobl fregus.

## Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gweithlu

Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gweithlu gan y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd, i oruchwylio gwaith ar greu gweithlu gwydn sy'n cael ei werthfawrogi, fel y manylir arno yn y Cynllun Gweithredu Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd. Mae gan y grŵp hwn argymhelliad tymor-byr y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod pob darparwr gwasanaeth yn derbyn digon o arian drwy'r GCT a'r GAD i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn 2026/27. Mae'r argymhellion tymor-canolog wedi eu ffocysu ar godi cyflogau gweithwyr rheng-flaen i adlewyrchu cyflogau mewn swyddi tebyg ar draws sectorau eraill sy'n rhoi cymorth i bobl fregus.

## Gweithredu diweddar i godi cyflogau gweithwyr rheng-flaen

Yn 2024/25, cynyddodd Llywodraeth Cymru y GCT o £13 miliwn, a dywedwyd wrth awdurdodau lleol y dylid defnyddio'r arian i godi cyflogau gweithwyr rheng-flaen, yn unol â'r ymrwymiad polisi i waith teg a'r Cyflog Byw Gwirioneddol. Yn 2025/26, cynyddwyd y gyllideb GCT o £21 miliwn, a dywedodd Llywodraeth Cymru wrth yr awdurdodau lleol y dylid ei ddefnyddio'n rhannol i godi cyflogau gweithwyr rheng-flaen. Er bod croeso cynnes wedi ei roi i'r ymyriadau hyn, mae'r dystiolaeth isod yn dangos ein bod yn parhau i fod ar lwybr tuag at gyflawni'r CBG, ac mae angen buddsoddiad pellach ar gyfer hyn.

## Tystiolaeth o gyflogau isel a'r argyfwng costau byw

Mae arolwg blynyddol y Rhwydwaith Rheng-flaen wedi canfod bod gweithwyr rheng-flaen ym maes digartrefedd a chymorth tai yng Nghymru yn ei chael yn anodd iawn i dalu costau byw ar gyflogau gweithwyr cymorth, gyda'r mwyafrif wedi ymgymryd â gwaith ychwanegol:

- **Dim ond 23% sy'n dweud bod eu cyflog yn ddigonol i dalu costau byw** (34% ledled y DU)
- **Mae 53% wedi ymgymryd â gwaith ychwanegol â thâl er mwyn talu costau byw** (o'i gymharu â 36% ledled y DU)

> "Mae cydweithwyr hefyd yn cymryd shifftiau ychwanegol gan na allant fforddio byw."

> "Mae'r staff yn gwirfoddoli i gymryd gwaith ychwanegol, nid oherwydd bod y cyflogwr yn mynnu hynny – yn wir, mae'r cyflogwr yn monitro defnydd uchel o oramser – ond oherwydd y sefyllfa economaidd gyffredinol a chostau byw. Nid yw'r tâl sylfaenol yn ddigonol, ac mae rhai o'n staff yn byw islaw y llinell dlodi. Mae'r llywodraeth yn pwyso'n drwm ar ewyllys da y staff."

## Talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol

O ystyried ymrwymiad Llywodraeth Cymru i Waith Teg a'r Cyflog Byw Gwirioneddol, a chyfarwyddeb y ddau Ysgrifennydd Cabinet diwethaf y dylid defnyddio'r cynnydd yn y cyllid yn 2023/24 a 2024/25 i godi cyflogau gweithwyr rheng-flaen, roedd gennym ddiddordeb mewn gweld pa gyfran o'r sefydliadau oedd mewn gwirionedd yn talu'r CBG. **Dywedodd 91% eu bod yn talu'r CBG i'r holl staff** o fewn eu gwasanaethau GCT/GAD a ariennir, sef yr un gyfran â'r llynedd.


**Mae 91% yn talu'r CBG**


## Ond nid yw'r CBG yn cael ei gyllido'n llawn

Roedd gennym ddiddordeb hefyd mewn gwybod i ba raddau y gallent dalu'r gost yma trwy ddefnyddio eu cyllid GCT neu GAD, neu a oedd raid iddynt ei sybsideiddio o ffynonellau eraill. Dywedodd **42% fod hyn yn cael ei dalu'n llawn gan y cyllid GCT/GAD a dderbynient**, sy'n cymharu â 21% y flwyddyn ddiwethaf.

**Dim ond 58% sy'n gallu talu hyn yn gyfan gwbl o gyllid y GCT / GAD.**

Dengys hyn fod y darparwyr cymorth tai wedi ymrwymo i'r CBG, ond nid yw'r mwyafrif yn derbyn digon o gyllid i dalu'r costau llawn. Mae'r ganran wedi gwella ers y llynedd, ond mae'n fater o bryder mawr ei fod yn parhau i fod dan 50%. Fel y dengys y data yn yr adroddiad hwn, mae'r cynnydd yng nghostau YC y cyflogwr wedi effeithio ar allu'r darparwyr i dalu costau eraill, ac yn dangos bod angen i Lywodraeth Cymru, trwy weithio gydag awdurdodau lleol, barhau i symud ymlaen i gyflawni CBG sy'n cael ei ariannu'n llawn.




## Y codiad sydd ei angen i dalu'r CBG a chynnal gwahaniaethu

O ystyried y data uchod – sy'n dangos nad yw'r mwyafrif o'r darparwyr gwasanaeth yn derbyn arian digonol i allu talu costau llawn y CBG a'r gwahaniaethu ar gyfer rheolwyr uniongyrchol– mae'n amlwg bod angen mwy o arian i alluogi talu'r CBG mewn blynyddoedd i ddod.

**Angen cynnydd o 12.2% dim ond i dalu'r CBG/cynnal gwahaniaethu**

Ar 22 Hydref, cyhoeddodd y Real Living Wage Foundation y Cyflog Byw Gwirioneddol o £13.45 (£12.60 ar hyn o bryd). Mae hyn wedi achosi gofid i ddarparwyr, gyda nifer ohonynt yn cysylltu â ni i fynegi eu pryder ynghylch eu gallu i gwrdd â'r costau ychwanegol hyn.

O ganlyniad, gofynnwyd iddynt amcangyfrif pa ganran o godiad mewn cyllid fyddai'n angenrheidiol er mwyn gallu talu'r CBG newydd a chynnal gwahaniaethu priodol ar gyfer rheolwyr uniongyrchol. Ar gyfartaledd, dywedodd darparwyr cymorth y byddai arnynt **angen codiad o 12.2% i dalu'r costau hyn.**

.

# Cynnydd yn y galw ac mewn cymhlethdod

CYMORTH



# Cynnydd yn y galw ac mewn cymhlethdod

Nid yw'r pwysau ar y system cymorth digartrefedd a chymorth tai erioed wedi bod yn fwy nag ydyw ar hyn o bryd. Mae ystadegau Llywodraeth Cymru'n dangos bod 10,876 o bobl mewn llety dros dro ar 30 Medi 2025. Bydd ar lawer o'r bobl hyn angen cymorth i'w helpu i ymdopi mewn llety dros dro, ac yna symud i gartref sefydlog. Mae gwasanaethau cymorth tai hefyd yn chwarae rhan allweddol wrth atal hyd yn oed rhagor o bobl rhag mynd i lety dros dro.


## Y galw am wasanaethau


Yn ein harolwg o ddarparwyr cymorth, **dywedodd 86% fod cynnydd yn y galw am eu gwasanaethau ers y llynedd**. Mae hyn ar ben y 91% oedd wedi datgan cynnydd yn y galw yn 2024/25 a'r 81% y flwyddyn cyn hynny.

Yn ogystal, dangosai arolwg blynyddol y Rhwydwaith Rheng-flaen fod **76% o'r gweithwyr rheng-flaen yng Nghymru wedi datgan cynnydd yn y galw** yn ystod y 12 mis diwethaf.

**86%**
**o'r ymatebwyr wedi adrodd am gynnydd yn y galw**

*"Yn un o'n hardaloedd, rydym yn gweithredu ar 300% dros y gofynion cytundebol oherwydd lleihad yn y gwasanaethau partner. Rydym hefyd yn gweld sefydliadau'n cau eu gwasanaeth i atgyfeiriadau newydd, ac mae hynny'n effeithio ar ein gweithwyr rheng-flaen."*




## Astudiaeth achos: Sefydliad A

Rydym yn gweld cynnydd amlwg yn y galw a'r cymhlethdod ar draws ein holl wasanaethau tai a digartrefedd. Adlewyrchir hyn yn y niferoedd uwch o atgyfeiriadau, anghenion mwy dwys a niferus, a mwy o bwysau ar adnoddau sydd eisoes yn brin. Mae llawer o'r bobl rydym yn eu helpu yn dod atom gyda heriau sy'n gorgyffwrdd – yn cynnwys problemau iechyd meddwl, trawma, defnydd o sylweddau, cam-drin domestig, ac effaith tlodi a'r argyfwng costau byw. Mae hyn wedi achosi cynnydd sylweddol yn nwysedd y cymorth sydd ei angen.

I bobl mewn gwasanaeth, gall hyn olygu cyfnod hirach o aros cyn cael mynediad at gymorth, neu'r angen am gyswllt amlach a mwy parhaus unwaith y byddant dan ein hadain. Mae rhai'n ei chael yn anodd i ymgysylltu'n gyson, sy'n golygu bod angen i'n timau ni fod yn hyblyg, dyfal, a thrawma-wybodus yn eu hagwedd. Yn sgil y cymhlethdod cynyddol a welir yn yr unigolion yn ein gwasanaethau, mae'n gwbl amlwg bod angen buddsoddi mewn mwy o hyfforddiant arbenigol. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau'r gyllideb yn golygu na allwn ddarparu'r lefel fwyaf buddiol o hyfforddiant. Mae angen dybryd am hyfforddiant ychwanegol ar ymarfer trawma-wybodus ac ar gefnogi pobl a chanddynt heriau iechyd meddwl.


## Cymhlethdod yr anghenion cymorth


Dangosodd yr arolwg hefyd fod **97% o'r ymatebwyr wedi adrodd am gynnydd yng nghymhlethdod y gofal** ers y llynedd. Mae hyn yn dilyn y 94% a adroddodd am gynnydd yn 2024/25 a 94% y flwyddyn flaenorol. Mae'r sylwadau isod yn tanlinellu natur y cynnydd hwn mewn cymhlethdod, gyda chyfeiriadau niferus at iechyd meddwl, defnyddio sylweddau, achosion o ddiogelu, arfau, bygwth staff, hunan-niweidio a hunan-laddiad. Mae darparwyr hefyd yn nodi bod hyn yn rhannol o ganlyniad i'r ffaith fod y bobl maent yn eu cefnogi yn methu cael mynediad at wasanaethau statudol megis Timau Iechyd Meddwl Cymunedol (CMHTs).

**97%**
**yn adrodd am gynnydd yng nghymhlethdod y gofal**

*"Rydym yn rheolaidd yn cael cleientiaid sy'n ystyried hunan-laddiad."*

*"Gwelwyd cynnydd mewn diogelu, a bellach mae dros 50% o'r cleientiaid yn agored i'r gwasanaethau plant. Cynt, roedd y ffigur tua 30%. Mae difrifoldeb achosion diogelu wedi cynyddu'n ddirfawr. Gwelwyd cynnydd yn nifrifoldeb yr achosion o gam-drin domestig."*




### Astudiaeth Achos: Sefydliad B

Gwelir tystiolaeth o gynnydd yn y data parthed galw a chymhlethdod yn nifer yr atgyfeiriadau a dderbyniwn a chanddynt anghenion mwy cymhleth a niferus na chânt eu diwallu, nag a welir mewn achosion o ddigartrefedd yn unig. Mae ystadegau Awdurdodau Lleol yn dangos cynnydd mewn llety dros dro ledled y wlad, gyda lefelau uwch nag erioed yn cael eu riportio, ac rydym yn sicr yn gweld hynny yn ein gwaith o ddydd i ddydd.

Mewn un ardal benodol noedd nifer y cleientiaid, a chanddynt gymhlethdodau niferus, mewn gwasanaeth preswyl yn golygu mai prif ffocws y staff oedd gwneud gwiriadau lles cyson (weithiau bob awr/hanner awr) i sicrhau bod y cleientiaid yn dal yn fyw. Roedd rhai cleientiaid yn wael iawn yn gorfforol, a dylent fod mewn rhyw fath o leoliad gofal neu ysbyty; fodd bynnag, roedd natur eu defnydd o sylweddau'n golygu nad dyna oedd y sefyllfa (naill ai trwy ddewis peidio â bod mewn ysbyty, neu oherwydd nad oedd yna le addas ar gyfer rhywun mor anhrefnus a chymhleth). Effaith hyn oedd:

- Roedd cleientiaid mewn lleoliad anaddas lle nad oedd modd rhoi sylw digonol i'w hanghenion
- Ni allai staff ffocysu ar unrhyw gymorth 'cyson' yn gysylltiedig â thai, gan yn hytrach orfod ffocysu ar gadw pobl yn fyw ac ymdrin ag argyfyngau. Golygai hyn na fyddai rhai cleientiaid a chanddynt anghenion llai dwys yn derbyn unrhyw gymorth yn ystod yr amser hwn.
- O ganlyniad, roedd y staff dan bwysau mawr, ac mewn cyflwr parhaus o uwch-wyliadwriaeth a arweiniodd at rai o'r staff yn dioddef lludded llwyr (gan arwain at salwch). Gwnaeth iddynt hefyd gwestiynu a oeddynt yn rhoi gwasanaeth digon da, ac a oeddynt mewn gwirionedd yn helpu pobl.

"Mae'r cynnydd yng nghymhlethdod ein llwyth achosion i'w weld yn amlwg yn y cynnydd blwyddyn-ar-flwyddyn mewn atgyfeiriadau diogelu y mae'n rhaid i'n tîm achosion ei wneud. Yn 24/25 cynyddodd hyn o 11% dros y flwyddyn flaenorol."

"Rydym wedi gweld mwy o ddefnydd o arfau, bygythiadau i staff a phobl eraill rydym yn eu cefnogi, cynnydd yn y nifer o bobl sy'n ystyried hunan-niweidio difrifol neu hunan-laddiad, ac ymatebion gwael oddi wrth y gwasanaethau statudol megis iechyd ac eraill. Mae hyn wedi cyfrannu at drosiant uwch/absenoldeb staff/swyddi gwag ac, mewn rhai achosion, rydym wedi gorfod dyblu uwchstaffio a defnyddio gweithwyr asiantaeth (ar gost ychwanegol) er mai'n anaml y bydd cyllid ar gael ar eu cyfer."

"Mae yna gynnydd penodol yn y galw am gymorth iechyd meddwl, sydd y tu hwnt i'r cymorth tai a fwriadwyd yn wreiddiol. Gofynnir i ni gymryd cleientiaid mwy cymhleth, ond ar yr un pryd rydym yn cael anhawster i drefnu mynediad iddynt at y math o gymorth mae arnynt wirioneddol ei angen."

## Yr effaith ar les y staff a lludded llwyr

Rydym wedi dod yn fwyfwy ymwybodol o'r effaith negyddol ar iechyd a lles y staff a achosir gan gynnydd yn y galw a'r cymhlethdodau, ynghyd â chyfyngiadau ariannol ac ansicrwydd swyddi. Yn arolwg blynyddol y Rhwydwaith Rheng-flaen, **dywedodd 52% o'r gweithwyr rheng-flaen yng Nghymru eu bod mewn perygl o ddioddef lludded llwyr**. Mae'r sylwadau isod yn esbonio hyn ymhellach.

**85%**
**yn adrodd am effaith wael ar les staff**

"Y llynedd, fe gollon ni aelod o staff i hunan-laddiad, ac rwy'n ofni y gallai pwysau gwaith fod yn ffactor, er na ellir profi hynny."

"Mae'r cynnydd yn y galw a'r cymhlethdod yn sicr wedi cael effaith ar staff. Mae rhagor o staff yn dioddef o ludded llwyr, ac yn dewis gadael swydd o fewn sector y buont yn hapus iawn ynddo am flynyddoedd lawer, oherwydd yr effaith a gaiff ar eu lles."

"Mae iechyd a lles y gweithwyr yn fater o bryder; maen nhw wedi cyrraedd pen eu tennyn ac mewn perygl o ddioddef o ludded llwyr. Rydym wedi gweld cynnydd yn y ceisiadau am sesiynau cwnsela/ arolygaeth glinigol oddi wrth staff oherwydd y cynnydd mewn atgyfeiriadau a'r anghenion hynod gymhleth sy'n dod yn eu sgil."

Mae nifer o sylwadau'n cyfeirio at yr angen am hyfforddiant o ansawdd uchel, cefnogaeth, arolygiaeth ac ymarfer adlewyrchol ar gyfer staff i'w galluogi i gael yr amser, y gofod, y sgiliau a'r gwytnwch i ymdopi â'r cynnydd mewn cymhlethdod. Fel y pwysleisiwyd eisoes yn yr arolwg hwn, mae gwasanaethau wedi methu buddsoddi yn y meysydd hyn o ganlyniad i'r cynnydd yng nghyfraniadau YC y cyflogwr, er gwaethaf bwriad Llywodraeth Cymru y dylid defnyddio'r cynnydd yn yr arian i helpu i fynd i'r afael â'r galw uwch a mwy o gymhlethdodau. Mae'r sylwadau hyn hefyd yn cyd-fynd ag argymhellion Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gweithlu ar hyfforddiant a systemau cefnogaeth ar gyfer y staff.

"I gydweithwyr, mae'r cynnydd yn y galw a'r cymhlethdod wedi golygu ysgwyddo mwy o achosion achos, rheoli lefelau risg uwch, a delio â sefyllfaoedd sy'n aml yn heriol yn emosiynol. Mae hyn yn tanlinellu'r galw enbyd am arolygiaeth drylwyr, cefnogi lles, a hyfforddiant arbenigol mewn meysydd megis iechyd meddwl a niwroamrywiaeth – unwaith eto, nid oes dyraniad yn y gyllideb i ddarparu hyn, ynghyd â'r effaith a achosir oherwydd y trosiant mewn staff. Fodd bynnag, ni allwn ddarparu arolygiaeth glinigol oherwydd diffyg cyllid, gan adael cydweithwyr heb y cymorth arbenigol mae arnynt ei angen"

## Trosiant staff

Adroddodd 67% o'r ymatebwyr am gynnydd yn y trosiant staff ers y llynedd, gan adeiladu ar y 50% a adroddodd am gynnydd y llynedd. Deallwn fod hyn o achos y cyfuniad o gyflogau isel a'r amgylchedd heriol mae pobl yn gweithio ynddo.

**67%** yn adrodd am gynnydd yn y trosiant staff

"Roedd ein trosiant staff ar gyfer staff a ariennir gan y Grant Atal Digartrefedd yn 22% y llynedd. O ystyried y galw uchel am ein gwasanaethau, roedd pob swydd wag yn rhoi pwysau ychwanegol sylweddol ar y staff."

"Mae'n dod yn fwy a mwy cyffredin i orfod ailhysbysebu swyddi gwag ddwywaith, neu hyd yn oed deirgwaith, mewn ardaloedd rhai awdurdodau lleol. Oherwydd hynny, mae gennym sawl swydd wag ar yr un pryd mewn rhai timau. Mae hyn yn effeithio'n fawr ar ddarpariaeth gwasanaeth – gall hefyd olygu treulio llai o amser gyda chleientiaid, ac ymestyn y rhestrau aros."

"Rydym hefyd yn gweld trosiant uchel mewn swyddi angenrheidiol, megis gofal effro drwy gydol y nos, lle gall cydweithwyr ennill cyflogau gwell trwy weithio mewn archfarchnadoedd."

## Effaith y cynnydd mewn trosiant ar gleientiaid a staff

Mae mwy o gynnydd mewn trosiant staff yn achosi rhwystredigaeth ac yn gostus i sefydliadau, ond hefyd mae'n cael effaith sylweddol ar y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau. O ystyried y trawma sy'n rhan o hanes llawer o bobl, gall fod yn anodd iawn iddynt adeiladu perthnasoedd maent yn ymddiried ynddynt. Fodd bynnag, unwaith maent wedi gwneud hynny, gall eu perthynas gyda'u gweithiwr cymorth fod yn ffactor bwysig yn eu hadferiad a'u lles. Mae trosiant staff yn golygu bod pobl yn colli'r berthynas hon, ac o ganlyniad yn ei chael yn anodd i ymgysylltu. Yn ogystal, gall swyddi gwag arwain at aelodau o'r staff yn ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol, gan gynyddu'r perygl o ludded llwyr a lleihau'r amser y gallant ei dreulio gyda'r bobl sydd dan eu gofal.

"Mae ymddiriedaeth a pherthnasoedd iach rhwng staff a defnyddwyr gwasanaeth yn gwbl angenrheidiol er mwyn hwyluso newid positif; fodd bynnag, gall trosiant cyson neu anghysondeb ymhlith y staff rwystro cynnydd a'i gwneud yn heriol i sefydlu perthnasoedd gwaith effeithiol. Ymhellach, mae timau weithiau'n cael profiad o forâl isel yn eu plith pan fo angen iddynt ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol yn sgil absenoldebau ymhlith eu cydweithwyr."

"Mae cadw staff, a'u lles, yn her allweddol sy'n effeithio ar barhad ac ansawdd y gefnogaeth i gleientiaid. Mae ein gwasanaethau wedi eu seilio ar ymddiriedaeth, ac mae hyn yn dibynnu ar barhad ac ar berthnasoedd effeithiol rhwng staff a chleientiaid."

"Mae defnyddwyr gwasanaeth, yn enwedig, yn teimlo'n rhwystredig a digalon wrth weld staff maent yn ymddiried ynddynt yn symud ymlaen i swyddi mewn sectorau eraill er mwyn cael cyflog uwch a chyfleoedd gwell."

"Mae cydweithwyr yn teimlo dyletswydd i dderbyn shifftiau ychwanegol gan nad ydynt yn awyddus i siomi ffrindiau a chleientiaid [...] ond yn y tymor hir mae hyn yn ychwanegu at greu lludded llwyr."

# Yr hyn y mae ar wasanaethau ei angen yn 2026/27

CYFLE



# Edrych i’r dyfodol: Cyllideb Cymru 2026/27

Ac ystyried cadarnhad yr Ysgrifennydd Cyllid o gyllideb dreigl ynghyd â 2%, a phryderon bod ar y darparwyr angen cynnydd llawer mwy er mwyn cynnal darparu gwasanaeth a chwrdd â chostau ychwanegol cyflogau a chwyddiant ynghlwm â darparu gwasanaeth, gofynnwyd i ddarparwyr beth fyddai’n digwydd petai’r cyllidebau GCT a’r GAD yn codi o ddim ond 2%.

## Effaith debygol cynnydd o 2% i gyllidebau’r GCT a’r GAD:

- Byddai 92% yn hynod debygol neu’n debygol o orfod lleihau capasiti’r gwasanaeth
- Byddai 92% yn hynod debygol neu’n debygol o rewi’r broses recriwtio
- Byddai 75% yn hynod debygol neu’n debygol o beidio â bidio am gytundebau newydd neu rai a ail-dendrwyd
- Byddai 63% yn hynod debygol neu’n debygol o wneud staff yn ddi-waith
- Byddai 43% yn hynod debygol neu’n debygol o orfod dychwelyd cytundebau sy’n bodoli eisoes


**92%** yn debygol o orfod lleihau capasiti’r gwasanaeth

**92%** yn debygol o rewi’r broses recriwtio

**75%** yn debygol o beidio â bidio am gytundebau

**63%** yn debygol o wneud staff yn ddi-waith

**Effaith debygol cynnydd o 2% i gyllidebau’r Grant Cymorth Tai a’r Grant Atal Digartrefedd:**




## Amcangyfrif o’r lleihad yn y gweithlu

A chymryd y byddai, mae’n debyg, angen i 92% o’r sefydliadau rewi’r broses recriwtio, a 63% o bosib ag angen diswyddo staff petaent yn derbyn cynnydd o ddim ond 2%, roeddem yn awyddus i geisio meintioli’r effaith ar faint y gweithlu. Mae’r data a dderbyniwyd oddi wrth ddarparwyr yn awgrymu y gallai’r gweithlu a ariennir gan y Grant Cymorth Tai a’r Grant Atal Digartrefedd ddioddef toriadau o gyfartaledd o 10% yn y senario hwn. Os amcangyfrifwn fod y gweithlu digartrefedd a chymorth tai rhwng 3,000 a 4,000 aelod o’r staff, byddai hyn yn gyfystyr â **300-400 aelod o’r staff yn colli eu swyddi.**

Collir tua **300-400** o swyddi

## Ein galwad i bob gwleidydd yn y Senedd

**Dylai pawb fod â hawl i gartref saff a diogel. Rydym yn galw am godiad pellach o 10% i'r Gyllideb Cymorth Tai ac Atal Digartrefedd yng nghyllideb derfynol Llywodraeth Cymru 2026/27.**

Mae'r data rydym wedi ei rannu yn rhoi mewnwelediad i gyflwr gwasanaethau digartrefedd a chymorth tai yng Nghymru. Tra bod codiadau ariannol diweddar wedi helpu i gau'r bwlch a adawyd gan dros ddegawd o doriadau mewn termau real, mae'r cynnydd yn y galw a chymhlethdod yr anghenion cymorth yn golygu bod ar wasanaethau angen buddsoddiad pellach.

Mae cynnydd y llynedd yng nghyfraniadau Yswiriant Cenedlaethol y cyflogwr wedi bwrw'r sector yn galed – er gwaethaf chwarae rhan holl bwysig wrth helpu gwasanaethau cyhoeddus i atal a rhoi diwedd ar ddigartrefedd, nid yw'r gwasanaethau hyn wedi cael eu hamddiffyn rhag y costau ychwanegol. Mewn gwirionedd, mae'r newidiadau i'r YC wedi rhwystro gwasanaethau rhag gallu codi cyflogau staff rheng-flaen gymaint ag y byddent wedi dymuno ei wneud, ac wedi sefyll yn ffordd yr awydd i gynyddu capasiti'r gwasaneth er mwyn gallu cwrdd â'r galw uwch a'r cymhlethdodau.

Galwn ar wleidyddion o bob plaid i flaenoriaethu'r Grant Cymorth Tai a'r Grant Atal Digartrefedd yn y gyllideb derfynol. Fel y dengys ein data, mae cynyddu'r arian hwn yn gwbl angenrheidiol os ydym i barhau i gefnogi pobl allan o ddigartrefedd.

Rydym wedi esbonio hyn i Lywodraeth Cymru, ond gobeithiwn y bydd y gwrthbleidiau sy'n craffu ar y gyllideb, ac yn ystyried bargeinio, yn gweithredu ar yr adroddiad hwn.

## Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:


- Katie Dalton, Cyfarwyddwr, Cymorth Cymru katiedalton@cymorthcymru.org.uk
- Elly Lock, Pennaeth Polisi ac Ymchwil, Cartrefi Cymunedol Cymru elly-lock@chcymru.org.uk